

Cyflwyniad Prifysgol De Cymru i gyfeirnoddi
yn arddull **APA**

for what is thought
to be best in any
point of view.

Psychology

of mind; mental
the mental life
know the mind
what is the

Cyflwyniad PDC i gyfeirnod i yn arddull APA

Cyflwyniad PDC i gyfeirnod i yn arddull APA

Cydnabyddiaethau

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar y Publication Manual of the American Psychological Association, 6ed argraffiad, 2010.

American Psychological Association. (2010). Publication manual of the American Psychological Association. (6ed arg.). Washington, DC: Awdur

Termau defnyddiol gwybod amdanyn nhw (Geirfa)

APA: American Psychological Association, gweler 6ed argraffiad yr APA Publication Manual neu wefan yr APA <http://www.apastyle.org/> i gael cymorth manwl gydag arddull APA.

Llyfryddiaeth: Ni ddefnyddir yn arddull gyfeirnoddi APA ond efallai y bydd angen ei gynnwys mewn arddulliau cyfeirnoddi eraill. Rhestr, wedi ei threfnu yn ôl yr wyddor, o ffynonellau nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y rhestr gyfeirnoddi yw hon, ond sy'n cael eu cynnwys i adlewyrchu darllen ehangach yn y maes. Neu gallai gynnwys mynegeion cyfeirio llawn a ffynonellau eraill (rhestrir yn nhrefn yr wyddor).

BPS: Cymdeithas Seicolegol Prydain, <http://www.bps.org.uk/> Canllaw cyfeirnoddi ac arddull ond sylwer bod BPS yn wahanol i APA mewn rhai ffyrdd.

Mynegai cyfeirio: Mae mynegai cyfeirio yn cynnwys cyfeiriad o-fewn-testun a chyfeiriad mewn llyfryddiaeth at ffynhonnell wybodaeth; cyfeirir ato'n aml fel cyfeirnod.

Dyfyniad uniongyrchol: Defnyddio'r union eiriau a ddefnyddir mewn testun/gan awdur/siaradwr yn eich gwaith ac wedi eu rhoi o fewn "dyfynodau dwbl".

DOI: Digital object identifier/Nodyn adnabod gwrthrych digidol. Defnyddir hyn i nodi gwrthrych megis dogfen electronig yn unigryw. Mae DOIau yn aml yn cael eu defnyddio yn lle URLau.

et al: Talfyriad a ddefnyddir ar gyfer "ac eraill". Defnyddir yn enwedig wrth gyfeirio at lyfrau neu erthyglau â mwy nag un awdur. Defnyddir mewn mynegeion cyfeirio o-fewn-testun. Sylwer nad yw APA (yn wahanol i gyfeirnoddi Harvard) yn rhoi et al mewn italig.

Harvard: Defnyddir arddull cyfeirnoddi Harvard mewn meysydd pwnc eraill yn PDC. Mae canllaw cyfeirnoddi PDC yn <http://studyskills.southwales.ac.uk/academic-skills/referencing/>

Cyfeirnoddi o-fewn-testun: Cyfeiriad at ffynhonnell yng nghorff eich aseiniad/traethawd/adroddiad.

Aralleirio: Cynnwys gwybodaeth, syniadau, ffeithiau, barn benodol i gefnogi'ch dadansoddiad/dadl, wedi ei egluro yn eich geiriau eich hun ac wedi ei gyfeirnoddi. Sylwer bod yn rhaid newid yr eirfa a strwythur y brawddegau pan yn bosibl.

Cyfathrebiadau Personol: Mae'r rhain yn cynnwys llythyrau, e-byst a sgysiau ffôn ac am nad oes modd eu hadalw nid ydynt yn cael eu cynnwys mewn rhestr gyfeirnoddi. Gellir rhoi mynegeion cyfeirio atyn nhw yn eich gwaith. Rhwch lythyren flaen, cyfenw'r person perthnasol a dyddiad mor gywir â phosibl.

Llên-ladrad: Methiant i gydnabod yn eich gwaith o ble y daeth gwybodaeth/deunydd yn wreiddiol. Gweler hefyd cyfeirnoddi o-fewn-testun, mynegeion cyfeirio, rhestr gyfeirnoddi a llyfryddiaeth. Mae llên-ladrad yn dramgwydd academaidd difrifol.

Rhestr Gyfeirnoddi: Rhestr, wedi ei threfnu yn ôl yr wyddor, o fanylion llawn pob ffynhonnell y cyfeirir ati yn eich testun.

Cyfeirnoddi eilaidd: Mynegai cyfeirio at ffynhonnell y mae gwaith awdur arall wedi cyfeirio ati.

Ffynonellau: O ble y daw gwybodaeth/deunyddiau y cyfeiriwch atynt yn eich gwaith yn wreiddiol. Er enghraifft: cyfnodolion, llyfrau, gwefannau, papurau newydd, papurau cynhadledd, a phapurau cyfreithiol a gwleidyddol.

Crynodeb: Trosolwg o'r ddatl neu'r pwynt a gyflwynir mewn ffynhonnell, wedi ei ysgrifennu yn eich geiriau'ch hun ac wedi ei gyfeirnoddi.

Cynnwys

Termau defnyddiol gwybod amdanynt (Geirfa)	2	Sut i gyfeirnoddi:	
Beth yw cyfeirnoddi?	4	Crynhoi	6
Beth sydd angen i fi ei gyfeirnoddi?	4	1 awdur	
Pam cyfeirnoddi?	4	2 awdur	
Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn	4	3-5 awdur	
Ymgorffori cyfeirnoddi:	4	6 neu fwy o awduron	
I gorff eich gwaith		Llyfr wedi ei ailgyhoeddi	
Y rhestr gyfeirnoddi		Llyfr wedi ei olygu	
		Pennod mewn llyfr wedi ei olygu	
		Llyfr electronig	
Ffynonellau eilaidd	4	Erthyglau mewn cyfnodolion (print ac ar-lein)	8
Crynhoi	4	Papurau newydd (print ac ar-lein)	8
Aralleirio	5	Papurau cynhadledd	9
Dyfyniadau	5	Cyhoeddiadau llywodraethol	9
Dyfyniadau uniongyrchol		Traethodau ymchwil (wedi eu cyhoeddi a heb eu cyhoeddi)	10
Dyfyniadau byr		Dogfennau cyfreithiol	10
Dyfyniadau hir		Adroddiadau/cyhoeddiadau swyddogol (print ac ar-lein)	11
Llên-ladrad (gan gynnwys hunan lôn-ladrad)	5	Cyhoeddiadau ar y Rhyngrwyd	11
Cymorth ychwanegol	5	Tudalennau gwe	
		Podlediadau	
		Postiad blog	
		Postiad fideo	
		Postiad Twitter	
		Postiad Facebook	

Pwysigrwydd cyfeirnodau

Beth yw cyfeirnodau?

Ystyr cyfeirnodau yw nodi ffynonellau'r wybodaeth/tystiolaeth/deunyddiau rydych yn eu defnyddio yn eich gwaith.

Beth sydd angen i fi ei gyfeirnodau?

Ffeithiau, data, theori, barn arbenigol, ymchwil, delweddau, dyfyniadau uniongyrchol... unrhyw beth rydych yn ei wybod am eich bod wedi ei ddarllen/ei glywed/ei weld. Mae hyn yn golygu llawer o'r deunydd y byddwch yn ei ddefnyddio yn eich aseiniadau.

Pam cyfeirnodau?

- Am fod disgwyl i chi ddadansoddi tystiolaeth/ffeithiau/theori/barn arbenigol i ffurfio'ch casgliadau eich hun a chefnogi eich dadl/safbwynt.
- Mae eich gallu i ddeall, dadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill yn cael ei fesur. Mae cyfeirnodau'n rhan anhepgor o hyn gan ei fod yn dangos i'r darlennydd pa destunau rydych wedi ymgynghori â nhw wrth wneud eich gwaith ymchwil. Byddwch hefyd yn cael eich asesu ar ansawdd a pherthnasedd y ffynonellau hyn. Mae'n bwysig cofio bod cyfeirnodau da a chywir yn arwain at farciau uwch.
- Bydd disgwyl i chi ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau academaidd addas.
- Am mai dyma'r arfer academaidd.
- Achos, os na fyddwch yn cyfeirnodau, byddwch yn cyflawni trosedd academaidd llên-ladrata (gweler y rhestr o dermau defnyddiol).

Sut i Ddefnyddio'r Canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn egluro sut i gyfeirnodau gan ddefnyddio arddull gyfeirnodau'r American Psychological Association (APA). Mae arddulliau cyfeirnodau'n cynnwys dwy ran – y cyfeirnod o-fewn-testun (yng nghorff eich aseiniad) a'r rhestr gyfeirnodau (rhestr o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd, ar ddiwedd yr aseiniad). Mae APA yn system awdur dyddiad ac mae'n dangos o ble y daw deunyddiau yn eich testun yn wreiddiol, ac mae'n nodi enw'r awdur a dyddiad cyhoeddi.

Defnyddiwch y canllaw i:

- Weld enghreifftiau o ffyrdd gwahanol o gyfeirnodau yng nghorff eich gwaith
- Cyfeirio at enghreifftiau i greu mynegeion cyfeirio ar gyfer eich rhestr gyfeirnodau
- Gweld enghreifftiau ac esboniadau o derminoleg a nodweddion cyfeirnodau.

Ymgorffori cyfeirnodau yng nghorff eich gwaith

Mae mynegeion cyfeirio o-fewn-testun yn cynnwys cyfenw (Enw teuluol) awdur neu'r corff awdura (e.e. BBC), blwyddyn cyhoeddi (os ar gael) a rhifau tudalennau (pan fo dyfyniadau uniongyrchol neu aralleirio wedi digwydd).

Enghreifftiau

1. Yn ôl Brown (2014, t.5) mae cŵn yn cyfarth pan fônt wedi diflasu.
2. Mae cŵn yn cyfarth pan fônt wedi diflasu (Brown, 2014, t.5).

3. Yn ei bapur, mae Brown (2014) yn ystyried pam mae cŵn yn cyfarth ac fe ddaw i'r casgliad eu bod yn cyfarth pan fônt wedi diflasu.

4. Noda Brown (2014, t.5), 'bored dogs bark'.

Sylwer

Os yw awdur yn ffurfio rhan o'r frawddeg mae'n parhau y tu allan i'r cromfachau (1).

Os daw'r cyfeirnod cyfan ar ddiwedd y darn o wybodaeth, mae'r awdur o fewn y cromfachau (2) Defnyddir rhifau tudalennau ar gyfer gwybodaeth sydd wedi ei haralleirio (1a2) ond nid ar gyfer crynodeb (3). Defnyddir rhifau tudalennau ar gyfer dyfyniadau uniongyrchol (4).

Rhestr Gyfeirnodau

Ar ddiwedd eich gwaith, mae angen i chi roi gwybodaeth lyfryddol gyflawn ar gyfer pob ffynonellau a ddefnyddir yn y testun. Rhaid rhestru ffynonellau yn nhrefn yr wyddor, fesul awdur, ac wedyn yn gronolegol gyda'r dyddiad cynharaf yn ymddangos gyntaf. Mae APA yn defnyddio mewnloliad tri bwlch ar gyfer yr ail linell a'r llinellau olynol.

Awdur gyda mwy nag un cyhoeddiad mewn un flwyddyn

I wahaniaethu rhwng gweithiau gan yr un awdur, wedi eu cyhoeddi yn ystod un flwyddyn, defnyddiwch a, b, c ac ati.

Cofiwch gynnwys y rhain yn eich rhestr gyfeirnodau hefyd!
Enghraifft (Freud, 1929a, 1929b, 1929c)

Ffynonellau eilaidd

Peidiwch â dibynnu gormod arnyhau nhw! Mae wastad yn well defnyddio ffynonellau gwreiddiol yn hytrach na defnyddio ar ffynonellau eilaidd.

O-fewn-testun

Enwch yr awdur gwreiddiol, gyda chyfeiriad at y ffynonellau eilaidd.

Mae astudiaeth Rubin o gariad rhamantus (fel y dyfynnir yn Sabini, 1992)...


Rhestr gyfeirnodau

Sabini, J. (1992). *Social psychology*. Efrog Newydd: W. W. Norton.

Crynhoi

Os ydych yn crynhoi dadl neu safbwynt cyffredinol llyfr neu erthygl dim ond enw'r awdur a'r flwyddyn gyhoeddi sydd angen eu nodi. Nid oes angen rhoi rhifau tudalennau yn y testun nac yn y rhestr gyfeirnodau.

Mae cyfeirnodau'n rhan anhepgor o ysgrifennu academaidd (Canolfan Addysg Alw Heibio, 2014).



Aralleirio

Aralleiriwch yn llawn, gan ddefnyddio'ch geiriau'ch hun; nid yw'n ddigon newid ambell air yn y testun gwreiddiol. Newidiwch gymaint o'r eirfa â phosibl A newidiwch strwythur brawddegau. Gofalwch beidio â newid yr ystyr wreiddiol. Mae aralleirio da yn dangos eich bod yn deall eich pwnc. Sylwer eich bod yn cael eich annog i ddefnyddio naill ai rhif tudalen (t. neu tt.) neu rif paragraff ar gyfer deunyddiau sydd heb eu rhifo yn ôl tudalen (Para.4) i arwain eich darlennydd.

Gwreiddiol: "We are so made, that we can only derive intense enjoyment from a contrast and only very little from a state of things." (Freud, Civilization and its discontents, 1929, pennod 2 t.13)

Aralleirio: Dangosodd Freud (1929, t.13) bod pobl yn diflasu ar bethau'n parhau yr un peth, ac awgrymodd bod dyhead naturiol gan y ddynol ryw i gael profiadau newydd er mwyn bod yn hapus.

Dyfyniadau

Dyfyniadau uniongyrchol

Peidiwch â dibynnu'n drwm ar ddyfyniadau uniongyrchol; peidiwch â'u defnyddio yn lle aralleirio. Defnyddiwch ddyfyniadau dwbl i amgáu'r dyfyniad.

Dyfyniadau byr

Mae'r rhain yn cael eu hymgorffori yn y testun, pan fônt yn llai na 40 gair.

Derbynnir bod yr "APA Style sets a standard that is realized in APA journals, books, and electronic databases." (VandenBos, 2010, t.15).

Dyfyniadau hir (enghraifft isod)

Yn cynnwys 40 gair neu fwy. Mae dyfyniadau hir yn dechrau ar linell newydd ac yn cael eu mewnnoli hanner modfedd o'r ymyl chwith. Mae bwllch dwbl rhwng llinellau dyfyniad hir. Sylwer, pan fo dyfyniadau'n cael eu gosod yn amlwg fel hyn, nid oes angen defnyddio dyfynodau. Bydd y cyfeirnod yn ymddangos yn syth ar ôl y marc atalnodi olaf.

Llên-ladrad (yn cynnwys hunan llên-ladrata)

Cofiwch – boed yn dyfynnu'n uniongyrchol neu'n aralleirio, rhaid i chi gydnabod y ffynhonnell bob tro. Gall methu â chyfeirnod i'n gywir gael ei ystyried yn ymgais i gyflwyno gwaith pobl eraill fel eich gwaith chi'ch hun. Mae hunan llên-ladrata yn digwydd pan fyddwch yn cyflwyno gwaith a gyflwynwyd gennych eisoes fel gwaith newydd. Os ydych yn bwriadu defnyddio unrhyw waith blaenorol – defnyddiwch ef yn gynnil a rhowch gydnabyddiaeth yn eich testun eich bod yn tynnu ar draethodau/adroddiadau blaenorol. Gweler y dudalen hon yn Unilife i gael rhagor o wybodaeth ynghylch llên-ladrad ac arferion academaidd da.

<http://unilife.southwales.ac.uk/pages/3168>

Cymorth Pellach

- Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys pob ffynhonnell bosibl efallai y bydd angen i chi ei chyfeirnod.
- Os oes angen rhagor o help arnoch chi, gofynnwch i'ch darlithydd, y Gwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio neu eich Llyfrgellydd.
- Y llawlyfr APA yw'r ffynhonnell derfynol ar gyfer canllawiau arddull a chyfeirnod i APA.
- Gweler rhestr o dermau defnyddiol isod ar gyfer esboniadau o eiriau a themau a ddefnyddir yn y canllaw hwn.

It is noted that it is:

very common for students to pretend they are doing no work, or that they haven't started revising. In some cases this is about 'image' for students who do not want to seem 'uncool' by appearing to spend their time in study rather than going to clubs or pubs and seeing bands. (Cottrell, 2007, p.73)

Llyfrau

Llyfrau (1 Awdur)

O-fewn-testun

Colman (1999) suggests the world is full of amateur psychologists who have never studied the subject.

Rhestr gyfeirnoddi

Colman, A.M. (1999). *What is psychology?* (4ydd arg.). Llundain: Routledge.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw'r awdur,
2. Llythyren flaen/Llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl.* (italig ar gyfer – gair cyntaf a phrif lythrennu unrhyw enwau priod)
5. Rhif yr argraffiad os yn berthnasol (gol. Mewn cromfachau crwn)
6. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Llyfrau (2 Awdur)

O-fewn-testun

Dau beth sy'n angenrheidiol ar gyfer ymchwil dda yw dibynadwyedd a dilysrwydd (Haslam & McGarty, 1998) neu Mae Haslam a McGarty(1998) yn nodi bod dibynadwyedd a dilysrwydd yn...

Rhestr gyfeirnoddi

Haslam, S.A., & McGarty, C. (1998). *Doing psychology: An introduction to research methods and statistics.* Llundain: Sage.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw'r awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl.* (italig ar gyfer – gair cyntaf a phrif lythrennu unrhyw enwau priod)
5. Rhif yr argraffiad os yn berthnasol (gol. mewn cromfachau crwn)
6. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Llyfrau (3-5 Awdur)

O-fewn-testun

Ar gyfer y mynegai cyfeirio cyntaf mewn testun – defnyddiwr enwau'r awduron i gyd: Mae seicoleg, honna Tyson, Jones, ac Elcock (2011) yn cael ei "shaped by social context" (t.22). NEU, ar gyfer mynegai cyfeirio cyntaf mewn cromfachau...ei "shaped by social context."(Tyson, Jones ac Elcock, t.22)

O hynny ymlaen: Mae Tyson et al. (2011, t.22) yn honni...

Rhestr gyfeirnoddi

Tyson, P.J., Jones, D., & Elcock, J. (2011). *Psychology in context: Issues and debates.* Chichester: Wiley-Blackwell.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw'r awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl.* (italig ar gyfer – gair cyntaf a phrif lythrennu unrhyw enwau priod)
5. Rhif argraffiad os yn berthnasol (gol. mewn cromfachau crwn).
6. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Llyfrau (6 neu fwy o awduron)

Wrth grybwyll am y tro cyntaf mewn testun, defnyddiwr fformat awdur arweiniol et al

O-fewn-testun

Mae Groome et al. (1999) yn awgrymu bod...neu, ar gyfer cyfeirnodau mewn cromfachau, Mae Seicoleg yn Gelfyddyd (Groome et al., 1999).

Rhestr gyfeirnoddi

Groome, D., Dewart, H., Esgate, A., Gurney, K., Kemp, R., & Towell, N. (1999) *An introduction to cognitive psychology: processes and disorders.* Hove: Psychology Press.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw'r awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl.* (italig ar gyfer – gair cyntaf a phrif lythrennu unrhyw enwau priod)
5. Rhif argraffiad os yn berthnasol (gol. mewn cromfachau crwn).
6. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Llyfr wedi ei ailgyhoeddi

O-fewn-testun

I Rogers, "a drive toward self actualisation is...in the last analysis, the tendency upon which all psychology depends." (Rogers, 1961/2011, t.35). Dylid cynnwys y ddau ddyddiad yn y testun fel y dangosir uchod, gyda'r dyddiad cyhoeddi cyntaf yn ymddangos gyntaf.

Rhestr gyfeirnoddi

Rogers, C. (2011). *On becoming a person*. London: Constable. (Original work published 1961).

Neu ar-lein

Rogers, C. (2011). *On becoming a person*. Adalwyd o <http://www.ebib.com> (Cyhoeddwyd y gwaith gwreiddiol 1961).

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw/au,
2. Llythyren flaen/Llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl*. (italig – gair cyntaf a phrif lythrennu unrhyw enwau priod)
5. Man Cyhoeddi: Cyhoeddwr. (neu URL fel uchod)
6. (Dyddiad cyhoeddi gwreiddiol y gwaith)

Llyfr wedi ei olygu

O-fewn-testun

Trafododd Gellatly a Braisby (2012) yn ddiweddar...neu – Trafodwyd hyn yn ddiweddar (Gellatly & Braisby, 2012).

Rhestr gyfeirnoddi

Gellatly, A., & Braisby, N. (Goln.). (2012). *Cognitive psychology*. (2il arg.). Rhydychen: Oxford University Press.

Trefn gyfeirnoddi

1. Golygydd – wedyn (Gol./Goln.).
2. (Blwyddyn).
3. *Teitl*. (italig – gair cyntaf a phrif lythrennu ar gyfer unrhyw enwau priod)
4. Rhif argraffiad os yn berthnasol (gol. mewn cromfachau crwn)
5. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Pennod mewn llyfr wedi ei olygu

O-fewn-testun

Dangosir pwysigrwydd cyfathrebu gan Yukelson, (2010) neu "communication lies at the heart of the Group process" (Yukelson, 2010, t 153)

Rhestr gyfeirnoddi

Yukelson, D. P. (2010). Communicating effectively. Yn J. M. Williams (Gol.), *Applied sport psychology* (tt. 149-165). Boston: McGraw-Hill Higher Education.

Trefn gyfeirnoddi

1. Awdur y bennod (cyfenw cyn llythyren flaen)
2. (Blwyddyn).
3. *Teitl* y bennod
4. Yn
5. Golygydd y prif waith – Llythyren flaen cyn cyfenw (Gol./Goln.),
6. *Teitl y prif waith* (italig – gair cyntaf/ prif lythrennau ar gyfer enwau priod)
7. (Tudalennau o'r bennod –tt.).
8. man cyhoeddi: Cyhoeddwr.
- 9.

Llyfr electronig

O-Fewn-testun

Dywed Stuart-Hamilton (2012) bod gan bobl hŷn faterion iechyd eraill NEU mae pobl hŷn fel arfer yn dioddef gan iechyd gwaeth... (Stuart-Hamilton, 2012)

Rhestr gyfeirnoddi

Stuart-Hamilton, I. (2012). *The psychology of ageing: an introduction*. (5ed arg.). Adalwyd o <https://www.dawsonera.com/abstract/9780857005779>

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/ Llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl* (italig – gair cyntaf/prif lythrennau ar gyfer enwau priod)
5. Rhif argraffiad os yn berthnasol (gol. mewn cromfachau crwn).
6. Adalwyd o URL neu DOI

Cyfnodolion

Erthyglau mewn Cyfnodolion

O-fewn-testun

Dywed Norcross and Wimpold (2011, t. 127) "Since the earliest days of modern psychotherapy, practitioners have realized that treatment should be tailored to the individuality of the patient and the singularity of his or her context".

Rhestr gyfeirnoddi

Norcross, J.C., & Wampold, B.E. (2011). What works for whom: Tailoring psychotherapy to the person. *Journal of Clinical Psychology, 67*, 127–132. doi: 10.1002/jclp.20764
NEU <http://www...>

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/Llythrennau blaen
3. (Blwyddyn).
4. Teitl yr erthygl
5. *Teitl y cyfnodolyn Teitl (mewn italig)*
6. *Cyfrol*,
7. Rhifau tudalennau.
8. DOI neu URL (os yn berthnasol)

Sylwer

- Mae erthyglau ar-lein sydd yr un peth â fersiwn wedi ei phrintio yn cael eu cyfeirnoddi fel y fersiwn print. Os ydyn nhw'n wahanol, rhowch y DOI neu'r URL hefyd fel y dangosir yma.
- Mae teitlau cyfnodolion yn cael eu hitaleiddio
- Os yw pob rhifyn o gyfnodolyn yn dechrau ar dudalen 1 rhowch y rhif cyhoeddi yn syth wedi rhif y gyfrol. Er enghraifft 10(1), 59-67.

Papurau newydd (print ac ar-lein)

Papurau newydd (Print)

O-fewn-testun

Mae Jemima Kiss (2014, Mai 14) yn awgrymu bod facebook yn cyflyru ein meddyliau i fformiwleiddio ein perthnasau mewn ffordd benodol.

Rhestr gyfeirnoddi

Kiss, J. (2014, Mai 14). The digital delusion. *The Guardian*, Comment and debate, t.34.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/Llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn, mis dydd)
4. Teitl yr erthygl. (dim italig – gair cyntaf/prif lythrennau ar gyfer enwau priod).
5. *Teitl y papur newydd*. (mewn italig a phrif lythyren ar gyfer pob gair pwysig).
6. Colofn neu adran,
7. t. Neu tt.

Ar-lein

O-fewn-testun

Awgryma Dr Nicola Sorfleet (2014, Mai 12) fod y sawl sydd wedi gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog yn 'make up the greatest proportion of those diagnosed with PTSD'.

Rhestr gyfeirnoddi

Sorfleet, N. (2014, Mai 12). PTSD is terrifying but speed of UK veterans seeking help is promising. *The Guardian*. Adalwyd o <http://www.theguardian.com/society/2014/may12/ptsd>.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/Llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn, mis diwrnod)
4. *Teitl yr erthygl*. (dim italig – gair cyntaf/prif lythrennau ar gyfer enwau priod).
5. *Teitl y Papur Newydd* (Prif lythyren ar gyfer pob gair pwysig)
6. Adalwyd o <http://www>.

Papurau Cynhadledd

Cyngor cyffredinol

Gelwir papurau cynhadledd yn aml yn drafodion

Gallant fod wedi eu cyhoeddi'n ffurfiol neu gallant fod yn rhai heb eu cyhoeddi

- Mae rhai'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd, mae angen fformat erthygl o gyfnodolyn ar y rhain

- Os ydynt wedi eu cyhoeddi mewn fformat llyfr bydd angen defnyddio'r fformat cyfeirnoddi llyfr neu bennod
- Mae angen fformat gwahanol ar gyfer papurau sydd heb eu cyhoeddi neu bosteri (gweler isod)
- DOI: rhoddir y DOI ar ddiwedd y cyfeirnod, ar ôl yr atalnod llawn olaf, ac fe'i ysgrifennir fel hyn: doi: 10.1073/pnas.0805417105

Papur cynhadledd mewn trafodion wedi eu cyhoeddi (fformat cyfnodolyn)

O-fewn-testun

Astudiodd Schmitt et al. (2014) gyfraniadau genetig at ddatblygiad yr ymennydd dynol...

Rhestr gyfeirnoddi

Schmitt, J., Neale, M. C., Fassassi, B., Perez, J., Lenroot, R. K., Wells, E. M. & Giedd, J. M. (2014). The dynamic role of genetics on cortical patterning during childhood and adolescence. *Proceedings of the National Academy of Sciences, UDA*, 111, 6774–6779. doi: 10.1073/pnas.1311630111

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. Teitl y papur.
5. Teitl y Gynhadledd/Trafodion,
6. *Cyfrol (mewn italig)*
7. Rhifau cynhwysol tudalennau.
8. Rhif doi os yn berthnasol

Trefn gyfeirnoddi ar gyfer fformat pennod llyfr: Byddai golygydd/ion/enw/au wedi eu dilyn (fel arfer) gan (Goln.) yn cael eu cynnwys ar ôl Teitl y papur. Mae rhifau cynhwysol tudalennau'n ar fformat tt. Mae hefyd angen man cyhoeddi a'r Cyhoeddwr.

Fformat cyfeirnoddi ar gyfer papur heb ei gyhoeddi: yn ogystal ag awdur, teitl a dyddiad, rhaid cynnwys hefyd deitl y digwyddiad lle cyflwynwyd y papur, a lleoliad y digwyddiad, e.e. Papur wedi ei gyflwyno yng Nghyfarfod yr American Sociological Association, Washington, DC. I weld manylion llawn ynghylch rhoi mynegeion cyfeirio ar gyfer trafodion cynadledau, gweler canllaw'r APA sydd ar gael yn: <http://www.apastyle.org/>

Cyhoeddiadau Llywodraethol

Cyhoeddiadau Llywodraethol

Mae papurau seneddol yn unigryw i senedd y DU ond gall adroddiadau llywodraethol swyddogol gynnwys llywodraethau tramor neu lywodraethau datganoledig NEU rai llywodraeth y DU, ac maen nhw'n cynnwys adroddiadau wedi eu creu ar gyfer llywodraeth gan adrannau llywodraethol.

O-fewn-testun

"Prisons provide an opportunity to offer health promotion and harm minimisation programmes" (Adran Iechyd, 2007, t.32).

Rhestr gyfeirnoddi

Adran Iechyd. (2007). *The health and personal social services programmes* (Cm 7093). Llundain: TSO.

Trefn gyfeirnoddi

1. Awdur corfforaethol,
2. (Blwyddyn).
3. *Teitl (mewn italig)*.
4. (Datganiad cyfres).
5. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Traethodau Ymchwil (wedi neu heb eu cyhoeddi)

Theses

Traethodau ymchwil wedi eu cyhoeddi, er enghraifft o Gronfa Ddata ETHOS

O-fewn-testun

Mae (Greenway, 2011) neu Mae Greenway (2011) yn nodi...

Rhestr gyfeirnoddi

Greenway, C. W. (2011). *Children solving analogical problems: insights from a cross sectional and microgenetic study using video analogues* (Traethawd doethuriaeth). Adalwyd o ETHOS. (uk.bl.ethos.534250).

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl mewn italig*.
5. (Traethawd doethuriaeth).
6. Adalwyd o enw cronfa ddata.
7. (Rhif derbynyn neu archebu)

Traethodau ymchwil/traethodau heb eu cyhoeddi

O-fewn-testun

Mae datblygiad plant â Syndrom Williams, fel y trafodir gan (Chasouris, 2008) neu Chasouris (2008) yn ...

Rhestr gyfeirnoddi

Chasouris, A. (2008). *Developmental psychopathology in children with Williams syndrome*. (Traethawd doethuriaeth heb ei gyhoeddi), Prifysgol Morgannwg, Pontypridd.

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen.
3. (Blwyddyn).
4. *Teitl mewn italig*.
5. (Traethawd doethuriaeth heb ei gyhoeddi),
6. Enw sefydliad, lleoliad.

Dogfennau Cyfreithiol

Dogfennau Cyfreithiol

Gall dogfennau cyfreithiol gynnwys:

- Statudau'r DU (Deddfau seneddol)
- Offerynnau statudol (SIs)
- Biliau Llywodraethol
- Papurau Seneddol (unigryw i lywodraeth y DU)
- Adroddiadau Llywodraethol Swyddogol (yn cynnwys papurau llywodraethol y DU, dramor neu lywodraethau datganoledig)
- Rheolau Cyffredinol Achosion Cyfreithiol (Adroddiadau'r Gyfraith)

Rheolau Cyffredinol

- Fel arfer NID YW dogfennau cyfreithiol yn cael eu cynnwys mewn rhestrau cyfeirnoddi (heblaw am bapurau seneddol).
- Mae achosion cyfreithiol fodd bynnag YN cael eu hitaleiddio fel y dangosir yn yr enghraifft isod.
- Gellir defnyddio talfyriadau cyfarwydd achosion cyfreithiol/biliau llywodraethol/SIs ar ôl y crybwylliad cyntaf e.e. Gellir nodi Queen's Bench Division fel QBD, Offeryn Statudol/Statutory Instrument fel SI neu Dŷ'r Arglwyddi/House of Lords fel HL a Thŷ'r Cyffredin/House of Commons fel HC.
- Rhoddir prif llythrennau i deitlau yn dibynnu ar sut maen nhw'n ymddangos ar ddalen flaen y ddogfen

- Wrth grybwyll am y tro cyntaf rhaid i chi roi cyfeirnod llawn iddo – e.e. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn amlinellu galluedd...neu, pan fo angen manylion mwy penodol, Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983, a. 145 (4) yn nodi...
- Pan fyddwch yn talfyrru teitl drwy ddefnyddio llythrennau blaen – rhaid i chi ddefnyddio'r acronym yn syth ar ôl y cyfeirnod llawn, e.e. Mae Deddf Galluedd Meddyliol (DGM) 2005 yn darparu...
- Atalnodwch yn gywir wrth gyfeirnoddi ffynonellau cyfreithiol.
- Sylwer ar y cromfachau sgwâr o amgylch dyddiadau mewn achosion cyfreithiol.

Enghraifft

Yn gyffredinol ni all person gydsynio i gael ei niweidio: mae eithriadau, megis mewn chwaraeon sy'n cael eu cynnal yn briodol fel yn *R v Coney* [1882] 8 QBD 534 ond ddim pan fo'r ymosodwr yn torri'r rheolau fel yn *R v Billingham* [1978] Crim LR 553.

I gael manylion llawn ynghylch rhoi cyfeirnodau mewn dogfennau cyfreithiol a phapurau seneddol, gweler safleoedd APA neu BPS.

Adroddiadau/Cyhoeddiadau Swydddogol (print ac ar-lein)

Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi gan y senedd, adran seneddol (DU neu dramor), llywodraeth ddatganoledig neu sefydliad cenedlaethol/rhyngwladol fel y BPS neu Sefydliad

lechyd y Byd.
Defnyddiwch rifau tudalennau os ar gael neu rifau paragraff os ar-lein.

Adroddiad Blynyddol

O-fewn-testun

Mae Adroddiad blynyddol y BPS (2012), (para. 12) yn tynnu sylw at lansiad porthol newydd, Psychsource.

Rhestr gyfeirnoddi

British Psychological Society. (2012). *Adroddiad Blynyddol*. Leicester: Awdur.

Trefn gyfeirnoddi

1. Corff/sefydliad perchnogol.
2. (Blwyddyn).
3. *Teitl*. mewn italig (gair cyntaf y teitl a'r gair cyntaf wedi'r colon [os yn berthnasol] wedi prif lythrennu)
4. Rhif cyfres neu gyfeirnod os yn briodol (mewn cromfachau crwn)
5. Man cyhoeddi: Cyhoeddwr.

Adroddiad Ar-lein

O-fewn-testun

Mae adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) (2013) yn mynnu bod...

Rhestr gyfeirnoddi

Sefydliad Iechyd y Byd. (2013). *Research for universal health coverage: World health report*. Adalwyd o <http://www.who.int/whr/2013/report/en>.

Trefn gyfeirnoddi

1. Corff/sefydliad perchnogol.
2. (Blwyddyn).
3. *Teitl*. Mewn italig (gair cyntaf y teitl a'r gair cyntaf ar ôl y colon [os yn berthnasol] wedi prif lythrennu)
4. Adalwyd o <http://www>.

Cyhoeddiadau ar y Rhynggrwyd

Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl, e.e. dyddiad, teitl a dynodwr.

Tudalennau Gwe

O-fewn-testun


Mae'r Fforwm Deilliannau Iechyd Plant a Phobl Ifanc – Is-grŵp Iechyd Meddwl (2012) yn adrodd bod smygu, yfed a defnyddio cyffuriau yn debygol mewn rhai 11-16 oed sydd ag anhwylder emosiynol.

Rhestr gyfeirnoddi

Fforwm Deilliannau Iechyd Plant a Phobl Ifanc – Is-grŵp Iechyd Meddwl. (2004). *Improving children and young people's mental health outcomes*. Adalwyd o https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/216853/CYP-Mental-Health.pdf.

Trefn gyfeirnoddi

1. Awdur/Awdur Corfforaethol
2. (Blwyddyn).
3. *Teitl*. mewn italig (rhif cyfres neu gyfeirnod os yn berthnasol).
4. Adalwyd o <http://www>.



Podlediad

O-fewn-testun

Adolygodd Therapies for anxiety disorders (Clark, 2012) neu Clark (2012) therapiau ar gyfer anhwylderau gorbryder yn ddiweddar...

Rhestr gyfeirnoddi

Clark, D. M. (2012, Hydref 21). *Developing and disseminating effective psychological therapies for anxiety disorders: science, policy and economics*. [Podlediad sain]. Adalwyd o <http://podcasts.ox.ac.uk/developing-anddisseminating-effective-psychological-therapiesanxietydisorders-science>

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. (Blwyddyn, mis, diwrnod).
4. *Teitl*.
5. [Podlediad sain].
6. Adalwyd o
7. URL

Postiad blog

O-fewn-testun

Mae Etchells (2014) yn disgrifio effaith...

Rhestr gyfeirnoddi

Etchells, T. (2014, April 4). Do television and video games impact on the wellbeing of younger children? [Postiad cofnod gwe]. Adalwyd o <http://bps-research-digest.blogspot.co.uk>

Trefn gyfeirnoddi

1. Cyfenw awdur/on,
2. Llythyren flaen/llythrennau blaen.
3. Teitl. (dim italeiddio gan ei fod yn ddeunydd heb ei gyhoeddi)
4. [Postiad cofnod gwe].
5. Adalwyd o URL hafan y blog yn hytrach na'r post ei hun

Vfideo (e.e YouTube)

O-fewn-tesun

...ei fynegi'n berffaith (American Psychological Association, 2014).

Rhestr gyfeirnoddi

Defnyddiwyd enw'r uwchlwythwr fel yr awdur. American Psychological Association. (2014, Mawrth 19). Measuring and analyzing human behavior in the world of gaming [Ffeil fideo]. Adalwyd o http://www.youtube.com/watch?v=nPZAo1L63_M&list=UU1yk0FVuAQctI6yjRlqc1Eg

Trefn gyfeirnoddi

1. Awdur. (enw uwchlwythwr)
2. (Blwyddyn, mis diwrnod).
3. Teitl
4. [Math o gyfrwng].
5. Adalwyd o
6. URL

Postiad Twitter

Dylid trin tudalen Twitter preifat neu ffrindiau yn unig fel Cyfathrebiad Personol.

O-fewn-testun

Gall statysau Facebook gael dylanwad... (APA, 2014).

Rhestr gyfeirnoddi

APA. (2014, Mai 13th). People who don't receive feedback on their Facebook updates can end up feeling rejected and have a lower self-esteem. [Postiad Twitter]. Adalwyd o <https://twitter.com/APA/status/466313250645479424>

Trefn gyfeirnoddi

1. Awdur.
2. (Blwyddyn, mis diwrnod).
3. Teitl y postiad (dim italig)
4. [Teitl y safle gwe].
5. Adalwyd o
6. URL y postiad

Postiad Facebook

Dylid trin cynnwys o dudalennau gwe cymdeithasol preifat neu ffrindiau yn unig fel cyfathrebiadau personol, ond gellir cyfeirnoddi gwybodaeth mewn gwefan rhwydweithio cymdeithasol sydd ar gael yn gyhoeddus.

O-fewn-testun

Mae llawer o sefydliadau ar gael yn awr i helpu pobl sy'n byw gyda dyslecsia. Mae gan un o'r rhain, Dyslexia Action, 2014, gyfrif Facebook ac mae'n rhedeg ymgyrch ar gyfraith hawlfraint.

Reference list

Dyslexia Action. (2014, Mai 12th). Join the campaign for modernised UK copyright laws that affect dyslexia and education. [Statws Facebook]. Adalwyd o <http://www.dyslexiaaction.org.uk/news/join-campaignmodernised-uk-copyright-laws-affect-dyslexiaand-education>

Trefn gyfeirnoddi

1. Awdur.
2. (Blwyddyn, mis diwrnod).
3. Teitl y postiad.
4. [Teitl y safle gwe].
5. Adalwyd o URL